OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3234 (Cy.281)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*7 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*22 Rhagfyr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7, 87(2) a (5)(a) ac 88(2) a (4)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) (Diwygio) 2009. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 22 Rhagfyr 2009

Diwygio Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid (Cymru) 2008

2. Mae Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008(**2**) wedi ei ddiwygio fel y'i nodir yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (Pathogenau anifeiliaid penodedig) ar ôl 34 (Feirws peste des petits ruminants) mewnosoder—

"**34A.** genoteip feirws Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu'r Moch".

4. Ym mharagraff 2 o Atodlen 2 (ymafael mewn pathogenau) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder —

"(3) Nid yw is-baragraffau (1) na (2) yn gymwys yn achos pathogen o'r enw genoteip feirws Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu'r Moch 2.".

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddodd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2008/1270 (Cy.129).